COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB YMLAEN DYDD IAU, 9 TACHWEDD 2023 YN 10:00

Presennol

A Bagley – Cadeirydd (Aelod lleyg)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | RM Granville | SJ Griffiths | M Hughes |
| A Williams | M Williams | | | |

Aelodau lleyg:

B Olorunnisola

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

G Chapman

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Kelly Watson | Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd |
| Anthony Veale | Archwilio Cymru (allanol) |
| Sara-Jane Byrne | Archwilio Cymru (allanol) |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Kate Pask | Swyddog Gwella Corfforaethol - Perfformiad |
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddol Busnes – y Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

112. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod 28 Medi 2023 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Tachwedd 2023 |

113. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a gwnaeth sylwadau ar nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Y Bwrdd Cyfalaf oedd newydd ei sefydlu, yn enwedig ei rôl a'i ddiben a'i drefniadau adrodd. Nodwyd mai ei rôl allweddol oedd gweithredu fel system rhybudd buan. Gofynnodd y Cadeirydd i weithred gael ei chofnodi i'r Pwyllgor gael sicrwydd, ar ryw adeg, fod y Bwrdd yn gweithio fel y bwriadwyd.<br>• Cerbydau Ysgol a’r pryderon a godwyd gan Aelodau yn y cyfarfod diwethaf. Codwyd y pryderon gyda'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB), ac ysgrifennodd y Cyfarwyddwr Addysg at bob ysgol ynghylch y mater. Gofynnodd Aelod am i gynnwys y llythyr gael ei rannu â’r Aelodau. Addawodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol wneud hyn.<br>• Argymhellion oedd yn Weddill. Bod y rhain wedi cael eu cyflwyno i'r CMB ac y caiff adroddiad ar y canlyniadau ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Ionawr. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Tachwedd 2023 |

114. Adroddiadau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cymru

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor Adroddiadau Archwilio Cymru ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Atodiad A ac Atodiad B. |

| | |
|---|---|
| | Bu'r Aelodau'n trafod nifer o faterion mewn ymateb i adroddiadau Archwilio Cymru, gan gynnwys materion ffioedd, newidiadau mewn safonau archwilio, a gwerthuso gwerth y broses archwilio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Tachwedd 2023 |

115. Adolygiad Hanner Blwyddyn o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24 a'r camau a gymerwyd hyd at 30 Medi 2023.<br><br>Cododd yr Aelodau nifer o faterion mewn ymateb i'r adroddiad hwn, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Chwyddiant. Nodwyd bod tâl, tanwydd, a materion yn ymwneud â chadwyni cyflenwi yn cael effaith neilltuol ar gyllidebau llywodraeth leol.<br>• Gwerth Hunanasesu.<br>• Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Derbyniodd yr Aelodau gadarnhad y byddai'r adroddiad ar hyn yn dod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Ionawr 2024. Nodwyd bod ceisiadau'n cael eu prosesu ac nad oedd neb wedi cael eu gohirio yn aros i'r fframwaith newydd fod yn weithredol.<br>• Datgarboneiddio a' cyllid a ddyrannwyd15.<br>• Yr angen am rywfaint o eglurder ychwanegol ynglŷn â'r ffordd y mae'r Cyngor wedi ymateb i rai argymhellion yn adroddiadau Archwilio Cymru, yn enwedig o ran, er enghraifft, Rheoli Asedau'n Strategol.<br>• Yr angen am gyd-destun yn yr adroddiad o ran y farn sicrwydd archwilio amodol ar Fudd-dal Tai, ac am fwy o fanylion am ymateb y Cyngor mewn perthynas â llywodraethu a rheoli risg. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Tachwedd 2023 |

116. Adroddiad Hanner Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2023-24

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio weithgareddau rheoli'r trysorlys am 2023-24 am y cyfnod o hanner blwyddyn o 1 Ebrill 2023 hyd 30 Medi 2023 a Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys rhagdybiedig ar gyfer 2023-24.<br><br>Mewn ymateb i'r Adroddiad, bu'r Aelodau yn trafod ystod o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Cronfeydd y farchnad arian a'u gwerth fel rhan o strategaeth rheoli'r Trysorlys.<br>• Tueddiadau o ran y ddyled net a chydbwysedd y buddsoddiadau.<br>• Meincnod atebolrwydd, yn enwedig ei werth fel offeryn.<br>• Gofynion cyllid cyfalaf y Cyngor, yn enwedig yn 2025-26 a thu hwnt.<br><br>Natur gymhleth a thechnegol adroddiadau rheoli'r trysorlys a phwysigrwydd monitro datblygiadau yn y maes gweithgaredd hwn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Tachwedd 2023 |

117. Hunanasesiad - 2022/23

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried a chymeradwyo'r newidiadau i adroddiad hunanasesu corfforaethol 2022/23 yn Atodiad 1.<br><br>Wrth ystyried yr adroddiad, cododd Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Yr angen i symud oddi wrth ddull anecdotaidd yn bennaf i un oedd yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth. Yr angen i ddefnyddio dulliau ystadegol i gael ddarlun llawnach o farn yn y Fwrdeistref Sirol.<br>• Blaenoriaethu gwasanaethau a'r graddau y cefnogir y rhain yn lleol.<br>• Gwerth meincnodi.<br>• Nad yw cludiant yn cael ei ystyried yn yr adroddiad, ac nad oedd y Strategaeth Gludiant Leol wedi cael ei diweddaru ers 2015. Nodwyd mai Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 (SOSC3) fyddai'r |

| | |
|---|---|
| | pwyllgor priodol i edrych i mewn i'r mater hwn ymhellach. Nodwyd tri cham gweithredu:<br><br>▪ Gofynnodd Aelod am gysylltu â Chadeirydd SOSC3 i ofyn iddynt edrych i mewn i'r mater.<br>▪ Ymrwymodd y Prif Weithredwr i edrych i mewn i'r mater fel paratoad ar gyfer yr adroddiad hunanasesu nesaf.<br>▪ Gofynnodd Aelod am ymateb ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr ar gynnydd yn erbyn cynllun 2015.<br><br>• Pwysigrwydd cyfleu'r pethau da a bod yn eiriolwyr dros yr hyn a wnawn.<br>• Er bod y fframwaith yn ei ddyddiau cynnar ei fod yn ddechrau da ac y byddai'n mynd â'r Cyngor yn ei flaen. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Tachwedd 2023 |

118. Adroddiad Monitro - Cwynion Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a phenderfynodd a oedd yn dymuno gwneud unrhyw argymhellion gyda golwg ar allu'r Awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r Aelodau'n trafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Cwynion Ffurfiol (Cam 2) a dadansoddiad o'r achosion sylfaenol pam nad atebwyd pob un o fewn 5 diwrnod. Y byddai'r tîm sy'n gyfrifol am gwynion yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod yr ymateb yn 100% o fewn 5 diwrnod.<br>• Fel yr amlinellwyd yn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), nifer y cwynion yn erbyn yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2022-23 oedd 55 o gymharu â 55 yn 2021-22 a 31 yn 2020-21. Mae'r ffigur ar gyfer 2022-23 yn cynrychioli 0.38 o gwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion.<br>• Yr angen i roi proses yn ei lle i adolygu'r Polisi Cwynion Blinderus yn rheolaidd.<br>• Gwerth cael argraffnod safonol ar ddogfennau polisi i grynhoi prosesau adolygu.<br>• Gallai'r Cynghorwyr fod angen canllawiau ychwanegol ynghylch ymdrin â sefyllfaoedd a allai fod yn heriol yn ymwneud ag etholwyr mewn perthynas â'r broses gwyno.<br>• Yr angen i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu oddi wrth gwynion er mwyn gwella gwasanaethau. |

| | |
|---|---|
| | Gwnaeth y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol ymrwymiad i rannu'r dadansoddiad o ganlyniadau'r broses gwyno â'r Aelodau.<br>• Yr angen i ddwyn ynghyd yr holl ffynonellau cwynion i mewn i broses gyffredin. Mae prosiect ar y gweill a arweinir gan y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid i edrych i mewn i'r mater hwn.<br>• O ran cwynion ffurfiol a dderbyniwyd gan bob Cyfarwyddiaeth, roedd y rhan fwyaf wedi eu crynhoi yng Nghyfarwyddiaeth y Cymunedau. Mae'n debyg bod y rhesymau am hyn yn gymhleth ond efallai mai'r rheswm allweddol yw bod natur y rhan fwyaf o'u gwasanaethau yn wynebu'r cyhoedd.<br>• Roedd angen sicrhau bod y broses gwynion yn gweithio fel y dylai a bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) yn adeiladu adolygiad i mewn i'w raglen waith i'r dyfodol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Tachwedd 2023 |

119. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/23

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/23 a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r Aelodau'n trafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Er bod gan y Pwyllgor ei nifer llawn o Aelodau ar gyfer cyfnod yr adroddiad blynyddol, roedd aelod lleyg wedi ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn gyfredol ac roedd y broses recriwtio i benodi rhywun y ei le wedi cychwyn.<br>• Roedd angen ystyried y trefniadau llywodraethu ar gyfer gwneud newidiadau i'r cynllun archwilio mewnol.<br>• Yn nhermau effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli, nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn dawel ynghylch yr hyn oedd i'w wneud o ran camau gweithredu cytunedig mewn ymateb i argymhellion blaenoriaeth uchel RIAS ac Archwilio Cymru. Unwaith y byddai dadansoddiad wedi cael ei gynnal o ble rydym gyda'r camau gweithredu rheoli cytunedig a'r ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad, byddai datganiad yn yr adroddiad ynghylch hyn yn ychwanegu mwy o drylwyredd i'r hyn a ysgrifennwyd am yr amgylchedd rheoli. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Tachwedd 2023 |

120. Blaenraglen Waith 2023-24

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bu’r Pwyllgor yn ystyried, a chymeradwyodd y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023-24.<br><br>Wrth ystyried yr adroddiad, nododd yr Aelodau nifer o faterion:<br><br>• Cynigiodd Aelod y dylai’r Pwyllgor gael rhestr o strategaethau cyhoeddus a pholisïau a gyhoeddir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu a’u diweddaru yn unol ag amserlen a benderfynwyd.<br>• Gofynnodd y Cadeirydd am i ddrafft cychwynnol o’r Flaenraglen Waith ar gyfer y flwyddyn yn dechrau ym mis Ebrill 2024 gael ei baratoi i’w ystyried yn y cyfarfod nesaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Tachwedd 2023 |

121. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Tachwedd 2023 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Terfynwyd y cyfarfod yn 12:18.